

CYNLLUN GWERS AR GYFER



BETH YW'R MATH MWYAF PERYGLUS O LYGREDD AER

Dyniaethau

Amcanion y wers

- Disgrifiwch nodweddion allweddol y tri phrif fath o lygredd aer.
- Lluniwch farn dros ba un yw'r math mwyaf peryglus o lygredd aer.
- Esboniwch pam mae monitorau aer mor bwysig wrth wella ansawdd aer a lleihau clefyd yr ysgyfaint.

Disgrifiadau o ddysgu

Y Dyniaethau:

- Rwy'n gallu deall ac esbonio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar y prosesau ffisegol sy'n siapio lleoedd, gofodau, amgylcheddau a thirffurfiau dros amser.
- Rwy'n gallu dadansoddi ac esbonio effaith penderfyniadau a wneir gan unigolion, llywodraethu lleol, cenedlaethol neu fyd-eang, a sefydliadau anllywodraethol ar bobl, eu hawliau a'r amgylchedd.

Datblygu sgiliau

- Rhannu meddyliau a barn
- Cwestiynu ffynonellau gwybodaeth
- Cyfiawnhau barn

➔ Adnoddau sydd eu hangen

- Beth yw'r math mwyaf peryglus o lygredd aer? Cyflwyniad Gwers
- Taflen Wybodaeth Llygredd Aer
- Taflen Gloi
- Geiriau allweddol, os oes angen
- Gweithgaredd Dysgu yn y Cartref, os oes angen

Geirfa allweddol

Gronynnau, nitrogen deuocsid, llygryddion, resbiradol, micronau, tanwydd ffosil, osôn, amlygiad, arwyddocâd, bregus, data, nitrogen ocsid, sylffwr deuocsid, carbon monocsid.

Dysgu blaenorol

Nid oes angen dysgu ymlaen llaw er y bydd rhai disgyblion yn ddi-os yn ymwybodol o'r system resbiradol, a'r effaith mae pobl yn ei chael ar y blaned a'r amgylchedd. Gwneud cysylltiadau â gwybodaeth flaenorol, lle bo hynny'n briodol, i helpu i ddarparu cyd-destun ehangach ac adeiladu ar ddealltwriaeth disgyblion o iechyd a llygredd yr ysgyfaint.

Amser	Gweithgaredd Athrawon	Addasiadau
5 munud	Cyflwynwch deitl y wers ac yna symud ymlaen i'r gweithgaredd cychwynnol. Dylai'r myfyrwyr geisio nodi'r peryglon wedi'u portreadu gan y pum triongl perygl a ddangosir ar sleid 2. Rhannwch yr atebion a dangoswch y rhai cywir ar sleid 3.	Esboniwch eirfa yn y cyflwyniad yn ôl yr angen. Ewch ati i wahodd ac ateb cwestiynau drwy'r cyfan i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion.
10 munud	Cyflwynwch yr amcanion dysgu ar gyfer y wers hon. Defnyddiwch sleid 4 i esbonio sut mae llygredd aer yn berygl gwirioneddol i iechyd pobl ym Mhrydain heddiw. Gosodwch y dasg i'r myfyrwyr o greu map meddwl gyda phartner o gyfranwyr posibl tuag at lygredd aer (yn seiliedig ar wybodaeth bresennol). Rhannwch atebion a defnyddiwch sleid 6 i ymdrin â phrif achosion llygredd aer os nad ydyn nhw'n dod i fyny yn ymatebion y myfyrwyr.	Gwiriwch wybodaeth gyfredol y myfyrwyr ar y pwnc hwn, sy'n ymwneud â'r amcanion dysgu. Gallai myfyrwyr weithio mewn paru i greu eu mapiau meddwl.
30 munud	Dosbarthwch y Daflen Wybodaeth Llygredd Aer a gadael i'r myfyrwyr nodi nodweddion allweddol llygredd gronynnau trwy gwblhau'r tasgau dealltwriaeth ar sleid 8. Gwiriwch yr atebion gyda'ch gilydd fel dosbarth. Gadewch i'r myfyrwyr nodi nodweddion allweddol llygredd nitrogen deuocsid trwy gwblhau'r tasgau dealltwriaeth ar sleid 9. Gwiriwch atebion. Gadewch i'r myfyrwyr nodi nodweddion allweddol llygryddion eraill trwy gwblhau'r tasgau dealltwriaeth ar sleid 10. Trafodwch yr atebion. Defnyddiwch sleid 11 i osod y dasg i'r myfyrwyr o osod y tri math o lygredd aer yn nhrefn eu harwyddocâd.	Gellid defnyddio dewiswyr enwau ar hap yma i ennyn ymatebion gan y myfyrwyr. Nid yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y daflen yn yr un drefn â'r cwestiynau ar y sleid am resymau bwriadol. Anogwch y myfyrwyr i gwestiynu'r testun cyfan i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Pwysleisiwch nad oes ateb 'cywir' i'r cwestiwn 'mwyaf difrifol' ond rhaid i fyfyrwyr allu cyfiawnhau eu dewisiadau.
10 munud	Esboniwch bwysigrwydd monitorau aer yn y frwydr yn erbyn llygredd aer trwy ddefnyddio sleid 12. Gosodwch y dasg i'r myfyrwyr grynhoi'r wybodaeth mewn un frawddeg, yna rhannu eu hymatebion.	Pwysleisiwch bwysigrwydd dewis y wybodaeth bwysicaf a pherthnasol ar gyfer eu brawddeg gryno.
5 munud	Rhannwch y Taflenni Cloi i fyfyrwyr greu eicon ar gyfer triongl perygl i rybuddio pobl o fodolaeth lefelau uchel o lygredd aer.	Pwysleisiwch bwysigrwydd ymgorffori rhywfaint o'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn y wers heddiw yn eu dyluniad.



Myfyrdodau gwers / camau nesaf / nodiadau athrawon

Cyfleoedd asesu

- Ydy myfyrwyr yn gallu disgrifio nodweddion allweddol y tri phrif fath o lygredd aer?
- Ydy'r myfyrwyr wedi llunio barn ynghylch pa un yw'r math mwyaf peryglus o lygredd aer a rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau?
- Ydy'r myfyrwyr yn gallu esbonio pam mae monitorau aer mor bwysig wrth wella ansawdd aer a lleihau clefyd yr ysgyfaint?

Awgrymiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- Ymchwiliwch sut y gall llygredd aer arwain at fwy o anghydraddoldebau mewn cymdeithasau.
- Gosodwch fonitorau ansawdd aer yn yr ysgol i nodi lefelau llygredd mewn gwahanol safleoedd ar dir yr ysgol. Ewch ati i gynnwys y myfyrwyr drwy gymryd darlleniadau a dadansoddi'r canlyniadau.

Cyfleoedd dysgu yn y cartref

- Ymchwiliwch i hanes llygredd aer yn y DU a'r rhesymau dros wella ansawdd aer mewn sawl ardal yn ystod y degawdau diwethaf.
- Ymchwiliwch i effaith llygredd aer yn fyd-eang i nodi'r ardaloedd mwyaf a lleiaf llygredig a'r rhesymau priodol dros eu lefelau llygredd.